OC-35036314

# Can Newydd,

YN RHODDI HANES

# JOHN CONNOR,

GWYDDEL, 32 Oed.

Yr hwn a ddihenyddiwyd yn Rhuthin, Llun y 15 o Ebrill 1822, am yspeilio, ac ymgais llofruddio, ar y ffordd rhwng Gwrecsam a Marchwiail.

---

Cenir ar y Dön Fechan.

POB mab a merch drwy siroedd Cymru
Dowch yn nes i wrando canu,
Fel mae'r fall, drwy ei ddichellion,
Yn dwyn marwolaeth ar ei weision.

Daeth dŷn i fyw i Frydain dirion,
Yr hwn a anwyd yn Iwerddon,
A John Connor oedd ei enw,
Fe ddaeth i ddiwedd oeraidd arw.

Drwg-weithredwr oedd o'i febyd;
Fe ddwedodd hyn ar awr ddychrynllyd,
Mai meddwi a thori'r glân Sabothau

Yn Nghymru cafodd gyfaill diras,
A henw hwn oedd William Thomas:
Ac y'nghyfeillach hwnw cafodd,
Wneud yr ola' o'i ddrwg-weithredoedd.

Dau *Oveseer* tylodion Hanmer,
A aent i Wrecsam wrth eu harfer,
I wneud i fynu ryw achosion
Oedd rn perthyn i'r Plwyfolion,

Ryw fodd gwybu'r ddau yspeiliwr,
Am achosion y ddau swyddwr,
A phenderfynent eu drwg amcan,
Sef lladd y ddau a dwyn eu harian.

Y ddau aethant tua Hanmer,
Ar eu bwriad drwg ysgeler,
Gan ddisgwyl gwel'd y lleill yn dyfod
Gael iddynt wneuthur eu dibendod.

Troi a wnaethant i dŷ tafarn,
Galw yno am ddiod gadarn;
A chyn hir amser daeth y dynion
I'r fan lle'r ydoedd eu gelynion.

Y ddau Swyddog a gychwynai
Wedi gwneud eu hangenrheidiau,
Heb feddwl fawr fod drwg mor agos,
Nag un yspeiliwr yn eu haros.

Y ddau lofrudd drwg ysgeler
Aent ar eu hol heb golli a...

Ar ol eu dal dywedent wrthynt
Mai eisia'u heiddo ydoedd arnynt.

Ac am iddynt nacau rhoddi,
Hi aeth yn ymdrech galed ddifri;
Ymladdai'r Gwyddel didrugaredd,
Am ei fwriad heb oferedd.

Pan oedd ei gyfaill braidd a methu,
Gyda'r llall wrth ddwys ymdrechu,
Fe neidiai y'mlaen, gan ddweyd yn chwerw,
"Mi a'i daliaf ef, tòr dithe ei wddw."

Fe dynai hwnw ei erfyn allan,
Gan feddwl lladd y llall yn fuan;
Ond yn lle tori gwddw'r swyddog
Fe dorai law y Gwyddel euog.

Ac yno yspeilio'r ddau a wnaethant
O'r cwbl oll oedd yn eu meddiant,
A churo'r ddau hyd eitha eu gallu,
Nes barnu eu bod hwy wedi trengu.

Ac yno i ffordd aent tua Gwrecsam,
Gan ddweud eu bod hwy'n feirw ddinam:
O ndnid felly'r ydoedd arnynt :—
Yr oedd eu bywyd eto ganddynt.

A'r ddau, er maint o gur a gawsant,
Ymlusgo o'r ffordd i'r maes a wnaethant,
Ac yno ymguddio am ryw amser,

Cyn hir fe ddaliwyd Connor waedlyd,
Ac ol yr erfyn arno hefyd,
A'r gwaed yn tystio ar ei d[illegible]llad,
Ei fod e'n euog o'r ddrwg weithred.

Fe ga'dd yn Rhuthin ei garcharu,
Ac yn y brawdlys mawr ei farnu
I ddi[illegible]wyno ar grogbren,
O achos gw[illegible]ed ddrwg ei dyben.

Mae Wil' [illegible] Thomas heb ei ddala ;
Cyn hir daw yntef i ryw ddalfa :—
Mae'n debyg iawn ceir ei hanesion ;
'Ran drwg y ceidw y diawl ei weision.

Boed hyn yn rhybydd i'r holl ie'ngctyd
Rhag dilyn llwybrau drwg ac ynfyd,
Meddwi a thori'r glân Sabbathau,
Sydd yn fagwriaeth i bob drygau.

Gan hyn gochelwn lwybrau gweigion,
Y rhai a rodir gan ynfydion ;
Rhodiwn lwybrau glân y bywyd,
Lle na's gwelir unrhyw benyd.

J. Jones, Treffynnon

---

*Argraffwyd gan J. Jones, yn Nhr*[illegible]